Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Dylech ddechrau llenwi'r templed hwn ar ddechrau unrhyw brosiect mawr sy'n cynnwys defnyddio data personol neu os byddwch yn gwneud newid sylweddol i broses bresennol. Dylech integreiddio'r canlyniadau terfynol yng nghynllun eich prosiect. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl, gan osgoi jargon neu acronymau lle y bo'n bosibl

Manylion y rheolydd

Enw'r Heddlu	Heddlu De Cymru / Heddlu Gwent
Pwnc/Teitl yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR)
Enw'r cynghorydd ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	Louise Voisey

Enw'r Prosiect	Technoleg Adnabod Wynebau
Perchennog Cyfrifol	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd
Maes Busnes/Adran	Yr Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad gweithredu arfaethedig	
Rhif Cyfeirnod *(i'w bennu gan y system Rheoli Gwybodaeth)*	

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer OIFR yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o'r Ddogfen Bolisi ar gyfer OIFR oni chânt eu diffinio fel arall.

Cam 1: Nodau'r Prosiect a Gweithgarwch Prosesu

Esboniwch beth mae'r prosiect neu'r gweithgarwch prosesu yn ceisio ei gyflawni a pha fath o weithgarwch prosesu sydd dan sylw. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at ddogfennau eraill neu gysylltu â nhw
Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr Y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau pan fo: (i) cyfryngau yn cael eu cofnodi'n uniongyrchol o Destun sy'n bresennol; neu (ii) cyfryngau yn cael eu caffael fel arall yn lle eu cofnodi, gyda'r bwriad o'u dadansoddi drwy ddefnyddio'r system technoleg adnabod wynebau. Gallai canlyniadau proses ddadansoddi o'r fath ddylanwadu ar ddigwyddiadau y mae'r ffilm yn ymwneud â nhw mewn amser real. Yn Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, mae hyn yn cynnwys defnyddio technoleg adnabod wynebau â ffôn symudol (Dyfais OIFR) sy'n cymharu ffotograff o wyneb person a dynnwyd ar ffôn symudol sy'n cael ei brosesu i greu Templed Biometrig sydd wedyn yn cael ei gymharu â'r Templed Biometrig o ddelweddau sydd yn y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau er mwyn helpu Gweithredwr i adnabod Testun. Caiff gwybodaeth bersonol ei chasglu drwy ddyfais OIFR y Gweithredwr sy'n cynnwys mesurau diogelwch achrededig yr heddlu i ddiogelu data, sef y defnydd o brawf dilysu dau gam ar y ddyfais a Rhwydwaith Preifat Rhithwir yn bennaf. Mae gallu archwilio i atal mynediad heb awdurdod neu gamddefnydd. Pan fydd Testun yn gwrthod cydymffurfio â chais dilys swyddog am ei fanylion, bydd y Gweithredwr yn tynnu ffotograff ar y ddyfais h.y. y "Ddelwedd Chwilota". Bydd y Ddyfais OIFR yn anfon y ddelwedd i'r system technoleg adnabod wynebau, sef gweinydd sefydlog sy'n rhedeg meddalwedd y dechnoleg adnabod wynebau, lle y caiff Templed Biometrig o wyneb yr unigolyn ei greu. Yna caiff hwn ei gymharu â Thempledi Biometrig delweddau eraill sydd yn y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau. Cyflwynir y Delweddau Chwilota drwy gymhwysiad pwrpasol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent (iPatrol) ac ni chânt eu cadw yn oriel Dyfais OIFR y Gweithredwr a chânt eu dileu'n awtomatig ar unwaith. Caiff y Ddelwedd Chwilota ei hanfon drwy drosglwyddiad diogel (drwy iPatrol) i'r system technoleg adnabod wynebau a'i chymharu â'r Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau.

Pryd y caiff OIFR ei defnyddio?

Ni chaiff OIFR ei defnyddio yn lle dulliau adnabod traddodiadol, megis cael sgwrs â'r unigolyn sydd wedyn yn rhoi ei enw sy'n cael ei gymharu â mynegeion yr heddlu i'w adnabod. Lle bynnag y bo modd, mae'n rhaid mai dim ond ar ôl i'r Gweithredwr a'r Testun hwnnw ryngweithio ac na fu modd adnabod y Testun drwy ddulliau arferol yr heddlu fel y'i disgrifiwyd y caiff ei defnyddio.

Dim ond os oes **rheswm dros ei defnyddio** ac os oes **seiliau dros ei defnyddio** yn bodoli y gellir defnyddio OIFR.

Rhesymau dros ei defnyddio

Dim ond pan na fydd y Testun yn hysbys ac mae o leiaf un o'r rhesymau canlynol dros ei defnyddio yn gymwys y caiff OIFR ei defnyddio:-

1. Ni all y Testun roi ei fanylion (wedi marw, yn anymwybodol, analluedd drwy alcohol neu gyffuriau, rhwystrau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu oedran)

2. Mae'r Testun wedi gwrthod rhoi ei fanylion.

3. Mae'n rhesymol amau bod y Testun wedi rhoi manylion anwir.

'Ni all y Testun roi ei fanylion'. Os na all y Testun roi ei fanylion oherwydd rhwystrau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl neu oedran neu os oes rhwystr ieithyddol amlwg sy'n atal hyn, bydd y Gweithredwr yn cynnal ymholiadau rhesymol (megis adnabod gofalwr priodol neu ddefnyddio llinell iaith) er mwyn hwyluso'r broses adnabod cyn defnyddio OIFR.

Seiliau dros ei defnyddio

Yn ail, dim ond at ddiben plismona pan fydd o leiaf un o'r canlynol yn gymwys y gellir defnyddio OIFR:

Amheuir : -

1. bod y llysoedd yn awyddus i ddal yr unigolyn.

2. bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd neu ei fod yn rhydd yn anghyfreithlon a bod angen gweithredu pellach gan yr heddlu.

3. bod yr unigolyn yn ddarostyngedig i amodau mechnïaeth, gorchymyn llys neu gyfyngiad arall a fyddai'n cael ei dorri pe bai yn y lleoliad ar y pryd.

4. mai unigolyn coll y tybir ei fod yn wynebu mwy o risg ydyw.

5. yr ymddengys bod risg y gall yr unigolyn achosi niwed iddo'i hun neu i eraill.

6. bod y Testun wedi marw neu cadarnhawyd ei fod wedi marw

'Angen gweithredu pellach gan yr heddlu'. Bydd y term hwn yn adlewyrchu natur yr ymchwiliad troseddol sy'n mynd rhagddo. Pan fo'n gyfreithlon ac yn angenrheidiol gwneud hynny, gall gynnwys yr angen i arestio'r unigolyn er mwyn cynnal ymholiadau plismona pellach. Ar adegau eraill, efallai y bydd angen i unigolyn gadarnhau manylion, er enghraifft, er mwyn parhau ag ymchwiliad.
'Unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg' Bydd y term hwn yn dibynnu ar ddiffiniad y Coleg Plismona o risg ganolig (neu uwch). Hynny yw asesir bod y risg o niwed i'r Testun neu i'r cyhoedd yn debygol ond nid yn ddifrifol. Gall y niwed fod yn gymwys yn yr un modd i'r Testun neu i unrhyw aelod arall o'r cyhoedd.
'Ymddangos bod risg o niwed'. Bydd y term hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen defnyddio OIFR i reoli'r risg o niwed a nodwyd a bod angen i'r heddlu weithredu er mwyn rheoli'r risg o niwed.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau lle y gall OIFR helpu Heddluoedd i gyflawni eu dibenion plismona:

- helpu i ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â throseddau a'u harestio
- helpu i adnabod pobl y mae cudd-wybodaeth yn awgrymu y gall fod risg o niwed iddyn nhw eu hunain neu i eraill (e.e., stelcwyr, terfysgwyr, unigolion coll y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg, ac ati)

Mae gweithrediad technegol OIFR yn cynnwys y chwe cham canlynol:

Creu/defnyddio cronfa ddata o ddelweddau sy'n bodoli eisoes: mae angen Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau o ddelweddau ar gyfer OIFR y gellir cymharu delwedd o wyneb a gyflwynir o ddyfais OIFR y Gweithredwr yn ei/eu herbyn. Er mwyn i ddelweddau gael eu defnyddio at OIFR, cânt eu prosesu fel bod 'nodweddion yr wyneb' sy'n gysylltiedig â'u testunau yn cael eu tynnu ohonynt a'u mynegi fel gwerthoedd rhifiadol (Templed Biometrig).

Caffael delwedd o wyneb: Delwedd ddigidol a gyflwynir o Ddyfais OIFR y Gweithredwr wrth ddefnyddio OIFR.

Adnabod Wyneb: Unwaith y bydd y ddelwedd wedi'i chyflwyno i'r system technoleg adnabod wynebau, mae'n canfod wynebau dynol unigol.

Tynnu nodweddion: Gan gymryd yr wyneb a ganfuwyd, mae'r system technoleg adnabod wynebau yn tynnu nodweddion yr wyneb o'r ddelwedd yn awtomatig, gan greu'r Templed Biometrig.

Cymharu wynebau: Mae'r system technoleg adnabod wynebau yn cymharu'r Templed Biometrig â'r rhai a ddelir ar y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau.

Paru: Pan gaiff nodweddion yr wyneb o ddwy ddelwedd eu cymharu, mae'r system adnabod wynebau yn cynhyrchu Sgôr Tebygrwydd, sef gwerth rhifiadol sy'n dangos pa mor debyg yw'r delweddau i'w gilydd, gyda sgôr uwch yn dynodi mwy o debygrwydd rhyngddynt. Caiff y chwe Delwedd debycaf o'r Unigolyn eu dychwelyd i'r Gweithredwr. Yn y modd hwn y mae OIFR yn gweithio i helpu personél yr heddlu i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

Y tu allan i'r cwmpas – Mae mathau eraill o dechnoleg adnabod wynebau nad yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â nhw. Mae hyn yn cynnwys Technoleg Adnabod Wynebau Ôl-Weithredol. Gellir defnyddio technoleg adnabod wynebau ôl-weithredol er mwyn helpu swyddogion i gadarnhau pwy yw unigolyn ac a yw'r ddelwedd ohono yn cyfateb i unrhyw gyfryngau eraill a ddelir ar gronfeydd data. Hefyd, Technoleg Adnabod Wynebau Byw, sef defnyddio technoleg adnabod wynebau yn agored i ddod o hyd i bobl ar restr wylio y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data gwahanol ar gyfer adnabod wynebau yn ôl-weithredol ac adnabod wynebau yn fyw.

Data personol: Amlinellwch pa gategorïau o ddata personol a gaiff eu prosesu ac esboniwch pam mae pob un yn angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau'r prosiect. *E.e. enwau, cyfeiriadau, dyddiadau geni, cofnodion troseddol, dynodyddion unigryw megis cyfeiriadau IP, enwau defnyddiwr, cyfeiriadau e-bost*

Caiff data personol sydd eisoes wedi'u prosesu gan yr heddlu eu prosesu ar y cyd â'r defnydd o OIFR gan gynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad. Fodd bynnag, ni chaiff y manylion hyn eu cynnwys yn y defnydd gwirioneddol a wneir o OIFR at ddibenion adnabod wynebau ond byddent yn cael eu prosesu pe bai'r Delweddau o'r Unigolyn cael eu dychwelyd ac, felly, dylid eu hystyried y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data.
Bydd data personol am unigolion sydd i'w cynnwys yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn cynnwys enw, dyddiad geni, rhifau digwyddiad, ffotograff ac ati a gaiff eu prosesu at ddibenion cydwedd sut bynnag.

Data Categori Arbennig: dewiswch bob categori cymwys isod a gaiff ei brosesu

☒ Hil
☒ Tarddiad ethnig
☐ Safbwyntiau gwleidyddol
☐ Bywyd rhywiol
☐ Crefydd
☐ Credau athronyddol
☐ Aelodaeth o undeb llafur
☐ Data genetig
☒ Data biometrig
☐ Cyfeiriadedd rhywiol
☒ Iechyd
☐ Dim

Gallai'r categorïau hyn o ddata gael eu prosesu fel rhan o OIFR o bosibl ond caiff algorithmau eu datblygu a'u profi'n barhaus er mwyn dileu neu leihau unrhyw duedd sy'n gysylltiedig â'r categorïau hyn fel rhan o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a rhaid bod modd dangos cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau sy'n deillio o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae adran 149 yn nodi:

'A public authority must, in the exercise of its functions, have due regard to the need to:

a. eliminate discrimination, harassment, victimisation and any other conduct that is prohibited by or under this Act
b. advance equality of opportunity between persons who share a relevant protected characteristic and persons who do not share it
c. foster good relations between persons who share a relevant protected characteristic and persons who do not share it.'

Testunau Data: Pa gategorïau o destun data sydd dan sylw?

x Personau yr amheuir eu bod wedi cyflawni trosedd
x Personau sydd wedi'u heuogfarnu o drosedd
x Plant neu unigolion sy'n agored i niwed
x Swyddogion neu staff yr heddlu (presennol a blaenorol)
x Arall

Os arall, rhowch ragor o fanylion isod:

Caiff Templed Biometrig o'r Ddelwedd Chwilota a gofnodwyd gan OIFR ac felly drawstoriad o'r cyhoedd, gan gynnwys pobl categori, ei brosesu o bosibl.

Caiff y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau ei chreu/eu creu o luniau a dynnwyd yn y ddalfa a lluniau o unigolion coll (y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg) yn seiliedig ar y meini prawf ar gyfer y defnydd.

Mae'n bosibl y caiff data personol unigolion o dan 18 oed, person ag anabledd neu oedolion sy'n agored i niwed eu prosesu lle mae angen plismona ac y tybir bod gwneud hynny yn angenrheidiol ac yn gymesur adnabod yr unigolion hyn a/neu eu diogelu.

Cam 2: Disgrifiwch y gwaith prosesu

Disgrifiwch natur y gwaith prosesu: Sut y byddwch yn casglu, yn storio ac yn dileu data? Beth yw ffynhonnell y data? A fyddwch yn rhannu data ag unrhyw un? Ystyriwch y broses o'r dechrau i'r diwedd a rhowch y manylion hyn ar gyfer pob cam o'r broses.

Os oes modd, dylech gynnwys/atodi diagram llif neu ffeithlun.

Pa fathau o weithgareddau prosesu y nodwyd eu bod yn risg uchel a fydd yn cael eu cynnal?

A fyddwch yn casglu gwybodaeth newydd am unigolion?

Mae gweithrediad technegol OIFR yn cynnwys y chwe cham canlynol:

1. **Creu/defnyddio cronfa ddata o ddelweddau sy'n bodoli eisoes:** mae angen Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau o ddelweddau ar gyfer OIFR y gelir cymharu delwedd o wyneb a gyflwynir o Ddyfais OIFR y Gweithredwr yn ei/eu herbyn. Er mwyn i ddelweddau gael eu defnyddio at OIFR, cânt eu prosesu fel bod ‘nodweddion yr wyneb’ sy'n gysylltiedig â'u testunau yn cael eu tynnu ohonynt a'u mynegi fel gwerthoedd rhifiadol (Templed Biometrig).

2. **Caffael delwedd o wyneb:** Delwedd ddigidol a gyflwynir o Ddyfais OIFR y Gweithredwr wrth ddefnyddio OIFR.

3. **Adnabod Wyneb:** Unwaith y bydd y ddelwedd wedi'i chyflwyno i'r system technoleg adnabod wynebau, mae'n canfod wynebau dynol unigol.

4. **Tynnu nodweddion:** Gan gymryd yr wyneb a ganfuwyd, mae'r system technoleg adnabod wynebau yn tynnu nodweddion yr wyneb o'r ddelwedd yn awtomatig, gan greu'r Templed Biometrig.

5. **Cymharu wynebau:** Mae'r system technoleg adnabod wynebau yn cymharu'r Templed Biometrig â'r rhai a ddelir ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

6. **Paru:** Pan gaiff nodweddion yr wyneb o ddwy ddelwedd eu cymharu, mae'r system adnabod wynebau yn cynhyrchu Sgôr Tebygrwydd, sef gwerth rhifiadol sy'n dangos pa mor debyg yw'r delweddau i'w gilydd, gyda sgôr uwch yn dynodi mwy o debygrwydd rhyngddynt. Caiff y chwe Delwedd debycaf o'r Unigolyn eu dychwelyd i'r Gweithredwr. Yn y modd hwn y mae OIFR yn gweithio i helpu personél yr heddlu i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

Caiff gwybodaeth ychwanegol ei chynhyrchu hefyd ar ffurf metadata h.y. amser, dyddiad a lleoliad. Pan fydd Gweithredwr yn siarad â Thestun ar ôl Cyfatebiad Posibl, caiff manylion eraill megis oedran, rhyw ac ethnigrwydd a ddiffinnir gan y Gweithredwr eu cofnodi.

Bydd profion cychwynnol ar OIFR yn cynnwys delweddau o staff Heddlu De Cymru gyda'u cydsyniad. Adlewyrchir hyn yn y sail gyfreithlon a nodir isod, ond nid yw'r cydsyniad yn gymwys i ddefnydd byw o OIFR pan gaiff ei defnyddio fel rhan o dasg gyhoeddus yr heddlu ac er budd sylweddol i'r cyhoedd.

Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau

Bydd OIFR yn defnyddio lluniau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a dynnwyd yn y ddalfa a lluniau o unigolion coll (y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg). Mae'r Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau wedi'u storio ar y system technoleg adnabod wynebau yn hytrach nag ar Ddyfais OIFR y Gweithredwr.

Caiff delweddau eu mewnforio i'r system technoleg adnabod wynebau o System Rheoli Cofnodion Niche (system rheoli cofnodion Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sy'n cynnwys yr holl luniau a dynnwyd yn y ddalfa a lluniau o unigolion coll) Gweler adran 3 o Bolisi OIFR). Mae'n bosibl y caiff data eu darparu gan heddluoedd eraill ac asiantaethau sy'n gysylltiedig â gorfodi'r gyfraith. Yn ystod cynllun peilot OIFR, nid ystyrir defnyddio unrhyw ddelweddau eraill heblaw am luniau a dynnwyd yn y ddalfa a lluniau o unigolion coll (y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg).

Mae Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn cynnwys cronfa ddata o'r holl luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn ardal Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae hefyd yn cynnwys unigolion coll (y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg) ar gyfer ardal Heddlu De Cymru. Mae'r Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn dyblygu'n union y delweddau sy'n cael eu storio'n gyfreithlon ar hyn o bryd yn System Rheoli Cofnodion Niche, sef ffynhonnell y lluniau a dynnwyd yn y ddalfa a'r lluniau o unigolion coll.

Ystyriwyd a oes angen lleihau'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ymhellach wrth ystyried seiliau gwahanol dros ei defnyddio neu yn ôl Testunau sy'n seiliedig ar garfan ddemograffig.

Wrth ystyried y seiliau dros ddefnyddio OIFR, tybiwyd ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur chwilio drwy'r holl luniau a dynnwyd yn y ddalfa neu luniau o unigolion coll (y tybir eu bod yn wynebu mwy o risg) gan mai bwriad OIFR yw adnabod y Testun a rhoi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r Testun (h.y. marcwyr rhybuddio) i'r Gweithredwr er

mwyn defnyddio'r Model Penderfynu Cenedlaethol yn effeithiol.

Gallai'r eithriad fod ar gyfer seiliau 1-3, gyda sail 2 wedi'i ddynodi ymhellach am amheuaeth o droseddau a gyflawnwyd ar adeg defnyddio OIFR neu tua'r adeg honno neu am amheuaeth o gyflawni troseddau hanesyddol.

Efallai y bydd chwilio drwy'r gronfa ddata gyfan o luniau a dynnwyd yn y ddalfa mewn cysylltiad â throseddau sydd wedi digwydd ar adeg defnyddio OIFR neu tua'r adeg honno yn angenrheidiol ac yn gymesur gan mai diben y chwiliad yw adnabod y Testun a rhoi gwybodaeth ychwanegol am y Testun (h.y. marcwyr rhybudd) i'r Gweithredwr er mwyn defnyddio'r Model Penderfynu Cenedlaethol yn effeithiol. Ni fyddai'r Testunau hyn ar adeg defnyddio OIFR yn ymddangos fel unigolyn dan amheuaeth yn System Rheoli Cofnodion Niche ar gyfer y mater sy'n cael ei ystyried gan y Gweithredwr ar y pryd.

Prif ddiben defnyddio OIFR am amheuaeth o gyflawni troseddau hanesyddol a Thestunau ar gyfer seiliiau 1 a 3 yw cadarnhau a yw'r Testun yn unigolyn a amheuir am ddigwyddiad hanesyddol. I'r perwyl hwnnw, efallai y bydd yn briodol cyfyngu ar ymholiad OIFR i Destunau sy'n gysylltiedig â seiliau 1-3 (h.y. cyfyngu ar ymholiad OIFR i Destunau â gwarantau byw, unigolion dan amheuaeth, amodau mechnïaeth ac ati) a thrwy hynny leihau nifer y delweddau o unigolion y chwilir yn eu herbyn.

Oherwydd y ffordd y mae Testunau yn cael eu cysylltu â digwyddiad ar System Rheoli Cofnodion Niche ar gyfer seiliau 1-3, nid yw'n bosibl creu is-adran gywir o luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ar gyfer Testunau mewn perthynas â gwarantau byw, unigolion dan amheuaeth, amodau mechnïaeth, ac ati ar hyn o bryd.

Felly, er mwyn sicrhau bod OIFR yn effeithiol pan gaiff ei defnyddio ar gyfer seiliau 1-3 (sail 2 amheuaeth o droseddau hanesyddol) tybir ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur chwilio'r gronfa ddata gyfan o luniau a dynnwyd yn y ddalfa a fydd yn galluogi'r Gweithredwr i ymholi'r cofnod cysylltiedig â llaw er mwyn cadarnhau neu wadu a yw'r Testun o dan amheuaeth o gyflawni trosedd, yn destun gwarant ac yn ddarostyngedig i amodau mechnïaeth perthnasol (h.y. seiliau 1-3) ar y pryd.

Ystyriwyd hefyd a oes cyfle i gyfyngu eto ar chwiliad OIFR o'r Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau drwy ddynodi Manylach yn seiliedig ar garfan ddemograffig y Testun.

Er enghraifft, byddai'n dechnegol bosibl dynodi'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn ôl oedran, rhyw a chefndir ethnig. Fel y cyfryw, gallai'r Gweithredwr wedyn ddewis cyfyngu ar ymholiad OIFR yn ôl cysylltiad â charfan ddemograffig a thrwy hynny leihau nifer y Delweddau o Unigolion y chwilir yn eu herbyn. Un enghraifft o hyn fyddai chwilio drwy luniau o fenywod a dynnwyd yn y ddalfa pe bai'r Testun yn ymddangos yn fenyw.

Weithiau, caiff OIFR ei defnyddio pan nad yw Testun yn ymwneud â'r Gweithredwr. Felly, y Gweithredwr sy'n penderfynu o ran carfan ddemograffig y Testun. Efallai y bydd her debyg

yn codi pan fydd y Person o Ddiddordeb yn mynd i ddalfa at ddibenion cofnodi delwedd.

Byddai hyn o bosibl yn arwain at benderfyniad goddrychol gan y Gweithredwr neu staff y ddalfa a all hepgor yn anfwriadol Bersonau o Ddiddordeb perthnasol o Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau neu Destun y chwilir amdano yn erbyn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau anghywir. Am y rhesymau hyn, tybiwyd y byddai'n aneffeithiol cyfyngu ar y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn ôl carfan ddemograffig.

Ers i'r system technoleg adnabod wynebau fynd yn fyw, mae sgript wedi cael ei rhedeg yn erbyn System Rheoli Cofnodion Niche er mwyn swp-gofrestru'r luniau a dynnwyd yn y ddalfa â'r system technoleg adnabod wynebau. Ystyriwyd dileu delweddau o bersonau yn awtomatig yn achos dim euogfarn ond nid oes modd gwneud hynny ar hyn o bryd oherwydd technoleg etifeddol y system.

Ar hyn o bryd, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ystyried dileu lluniau o unigolion a dynnwyd yn y ddalfa yn achos dim euogfarn os gofynnir am hynny – nid yw'r mater hwn wedi'i gyfyngu i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn unig. Ar hyn o bryd, oherwydd maint y dasg o ddileu delweddau'n awtomatig, ni thybiwyd ei bod yn gymesur dileu â llaw luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn achos dim euogfarn o'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau gan y bydd hyn yn negydu manteision defnyddio'r dechnoleg. Fodd bynnag, ni chymerir unrhyw gamau o ran unigolyn sy'n cael ei adnabod heb ymyriad dynol.

Pan fydd delwedd o unigolyn wedi cael ei thynnu yn y ddalfa, caiff hon ei 'gweld' gan y system technoleg adnabod wynebau a'i derbyn. Ar hyn o bryd, mae oedi o tua 5 munud rhwng System Rheoli Cofnodion Niche a'r system technoleg adnabod wynebau.

Nid yw Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn cael eu storio ar Ddyfais OIFR y Gweithredwr ond gellir eu gweld drwy ddefnyddio rhyngwyneb â'r system technoleg adnabod wynebau sydd wedi'i lleoli ar safle Heddlu De Cymru.

Er mwyn sicrhau paredd rhwng y ddelwedd lyfrgell yn System Rheoli Cofnodion Niche a'r system technoleg adnabod wynebau, rhoddir gwerth hash ar bob delwedd a chymherir y gwerthoedd bob dydd er mwyn nodi unrhyw amrywiad.

I'r perwyl hwnnw, pan fydd unigolyn yn gwneud cais llwyddiannus i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent am i lun a dynnwyd yn y ddalfa gael ei dileu yn System Rheoli Cofnodion Niche yn achos dim euogfarn, byddai'r broses o gymharu'r gwerthoedd hash yn nodi'r anghysondeb rhwng y setiau data a byddai e-bost rhybudd yn cael ei anfon i dîm y prosiect er mwyn sicrhau bod y ddelwedd yn cael ei dileu yn y system technoleg adnabod wynebau.

Cyflwynir Delweddau Chwilota o Ddyfais OIFR drwy Rwydwaith Preifat Rhithwir diogel gan ddefnyddio'r rhwydwaith ffonau symudol i'r system technoleg adnabod wynebau. Ni chaiff y Delweddau Chwilota eu cadw yn y system technoleg adnabod wynebau. Caiff Templed

Biometrig ei greu o'r Ddelwedd Chwilota a'i gymharu â Thempledi Biometrig Delweddau o'r Unigolyn.

Dylai dogfennau polisi'r heddlu hefyd ddarparu bod cyfansoddiad y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau:

a. cynnwys dim ond delweddau a ddelir yn gyfreithlon gan yr heddlu gan roi ystyriaeth hefyd i'r canlynol:

- y sail gyfreithiol y cafwyd y ddelwedd oddi tani; a
- ffynhonnell y ddelwedd, yn arbennig pan gafwyd y ddelwedd o ffynhonnell sensitif neu ffynhonnell trydydd parti ac y gallai beryglu'r ffynhonnell honno neu amlygu'r ffynhonnell honno i risg
- defnyddio delweddau dim ond os bydd pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau:
- bod y ddelwedd yn ddelwedd o unigolyn y bwriedir iddi gael ei chynnwys ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau benodol; ac
- mai'r ddelwedd yw'r un fwyaf diweddar a/neu addas sydd ar gael i'r heddlu sydd o ansawdd priodol i'w chynnwys ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

Ni fydd cofnod o'r chwiliad (h.y. yr ymgais i gael cyfatebiad delwedd yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau) ar gael yng ngofnod archwilio'r system technoleg adnabod wynebau. Caiff cofnod awtomataidd o'r chwiliad ei gadw yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr. Caiff hwn ei gofnodi'n awtomatig ac ni fydd yn cynnwys y Ddelwedd Chwilota a chaiff y cofnod ei gadw yn unol â chyfnod cadw safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Mae'r gallu i archwilio'n effeithiol ac atebolrwydd o ran y defnydd o OIFR yn hollbwysig er mwyn sicrhau tryloywder a chadw hyder y cyhoedd. Yng ngoleuni hyn, mae'r defnydd o OIFR yn creu cofnod archwilio yn awtomatig, a gofnodir yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr.

Mae'r broses awtomataidd o gwblhau cofnodion o'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig yn rhoi nodwedd archwilio sy'n caniatáu i'r defnydd o OIFR gael ei fonitro a'i werthuso'n awtomatig heb fod angen edrych ar Lyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr ei hun.

Drwy ddefnyddio'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig, mae'r cofnod o chwiliad yn gwbl archwiliadwy a bydd y cofnod llawn yn cynnwys rhesymeg y Gweithredwr dros ddefnyddio OIFR a disgrifiad o'r Testun a fydd yn cynnwys oedran, rhyw ac ethnigrwydd y mae'n rhaid i'r Gweithredwr eu mewnbynnu â llaw. Bydd y cymhwysiad bob amser yn dychwelyd y chwe Delwedd debycaf o'r Unigolyn i Ddyfais OIFR y Gweithredwr. Ni fydd y delweddau hyn yn cael eu cadw yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr. Yn lle hynny, caiff rhif enwol System Rheoli Cofnodion Niche ei gadw fel cyfeirnod at y ddelwedd a ddewisiwyd gan y Gweithredwr os oes angen.

Pan fydd y Delweddau o Unigolion yn cael eu derbyn ar y Ddyfais OIFR, ni fydd unrhyw

wybodaeth bersonol arall am y Testun ar gael. Bydd y Gweithredwr yn arfer ei farn/barn i nodi Cyfatebiad Posibl.

Os bydd y Gweithredwr yn ystyried bod Cyfatebiad Posibl, bydd OIFR yn caniatáu i'r Gweithredwr gael y rhif enwol ar y System Rheoli Cofnodion Niche sy'n ymwneud â'r ddelwedd hon a'i gyflwyno er mwyn cynnal 'gwiriad person' fel y'i nodwyd yng Ngweithdrefnau Gweithredu Safonol iPatrol a'r Asesiad cysylltiedig o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol OIFR yn rhoi trosolwg manwl o'r ffordd y mae OIFR yn gweithio.



Disgrifiwch gwmpas y gwaith prosesu: Faint o ddata y byddwch yn eu casglu ac yn eu defnyddio? Pa mor aml? Am ba hyd y byddwch yn eu cadw? Data faint o unigolion a gaiff eu cofnodi? Pa ardal ddaearyddol a gwmpesir?

Cadw a Dileu

Yn benodol i OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau

- Delwedd o'r Testun fel y'i cofnodwyd gan OIFR (Delwedd Chwilota) – sy'n cael ei dileu ar unwaith ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau.
- Templed Biometrig o Ddelwedd Chwilota – yn cael ei ddileu ar unwaith yn y system technoleg adnabod wynebau
- Delweddau o Unigolion a'r Templed Biometrig (a ddelir ar y system technoleg

adnabod wynebau) – yn dilyn yr un cyfnodau cadw â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu ar gyfer System Rheoli Cofnodion Niche

Llyfr Nodiadau Poced Electronig

- Llyfr Nodiadau Poced Electronig – cyfnod cadw gwybodaeth bersonol yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (a nodir yn fanwl yn yr Adolygiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data mewn perthynas â'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig), heb gynnwys y Ddelwedd Chwilota.

System Ffynhonnell – Lluniau a dynnwyd yn y Ddalfa a Lluniau o Unigolion Coll

Gweler y ddogfen 'Review of the Use and Retention of Custody Images', a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror 2017 (argymhelliad 4)

Ar hyn o bryd, mae tua 760k o ddelweddau yn system ffynhonnell System Rheoli Cofnodion Niche Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Caiff yr holl ddelweddau eu lanlwytho'n swp i'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau pan fydd y cynllun peilot yn mynd yn fyw a chaiff lluniau pellach a dynnwyd yn y ddalfa eu hychwanegu ddeg munud ar ôl i'r ddelwedd gael ei chofnodi yn y system ffynhonnell.

Caiff delweddau o unigolion coll eu diweddaru yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau bob awr. Bydd hyn yn cynnwys ychwanegu delweddau newydd a hefyd ddatgofrestru unrhyw ddelweddau o unigolion y nodir nad ydynt ar goll mwyach yn y system ffynhonnell â'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

Mae'r ardal ddaearyddol wedi'i chyfyngu i ranbarth De Cymru a Gwent.

Disgrifiwch gyd-destun y gwaith prosesu: beth yw natur eich perthynas â'r unigolion? Faint o reolaeth fydd ganddynt dros y ffordd y caiff eu data eu prosesu? A fyddent yn disgwyl i chi ddefnyddio eu data fel hyn?

A ydynt yn cynnwys plant neu grwpiau eraill sy'n agored i niwed? A oes pryderon neu heriau eisoes sy'n ymwneud â'r math hwn o waith prosesu neu ddiffygion diogelwch?

A yw'r gwaith prosesu yn newydd mewn unrhyw ffordd? A oes materion sy'n destun pryder i'r cyhoedd ar hyn o bryd y dylech eu hystyried?

Aelodau o'r cyhoedd

Pan ddechreuir defnyddio'r dacteg hon, bydd yn broses agored a ategir gan strategaeth gyfathrebu. Mae hysbysiadau preifatrwydd eisoes wedi cael eu diwygio a'u dosbarthu yn ogystal â'u gosod ar wefan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.

Bydd Gweithredwyr yn rhoi esboniad ar lafar i'r Testun ynglŷn â'r rhesymeg a'r seiliau dros ddefnyddio OIFR yn y lleoliad, oni bai bod y Testun yn anymwybodol neu wedi marw, yn ogystal â'r wybodaeth gyhoeddedig sydd ar gael i'r cyhoedd.

Bydd y Gweithredwr yn esbonio y caiff Delwedd Chwilota'r Testun ei dileu'n awtomatig ar unwaith ac na chaiff ei rhannu ag unrhyw drydydd parti.

Efallai y bydd OIFR yn rhoi gwybodaeth a chudd-wybodaeth ychwanegol i'r Gweithredwr er mwyn defnyddio tactegau plismona eraill megis y pŵer i chwilio neu arestio Testun.

Bydd y Testun yn cael ei gyfeirio at wefan System Technoleg Adnabod Wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent am fanylion y polisi preifatrwydd llawn.

Pan ddefnyddir OIFR, mae'n rhaid i'r Gweithredwr sicrhau ei fod/bod yn gwneud hynny'n gyfreithlon, ac mewn modd priodol a chymesur. Mae'n rhaid i Weithredwyr gydymffurfio â'r Cod Moeseg bob amser. Lle bynnag y bo modd, dylid rhoi taflen wybodaeth am OIFR i aelodau o'r cyhoedd sydd wedi bod yn destun OIFR.

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd wedi cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am brosesu data biometrig a chyfeiriadau at wefan y System Technoleg Adnabod Wynebau.

Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau
Bydd y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni troseddau ac y mae'r llysoedd a'r heddlu yn awyddus i'w dal; unigolion a all beri risg iddyn nhw eu hunain ac i eraill; ac unigolion a all fod yn agored i niwed.

Mae disgwyliad rhesymol y caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu er mwyn cyflawni dyletswyddau plismona gweithredol, gan gynnwys:

- Diogelu bywyd
- Cadw trefn
- Atal troseddau rhag cael eu cyflawni
- Dwyn troseddwyr gerbron y llys.

Pan fo'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni nod dilys ac yn unol â'r gyfraith. Mae'n rhaid bod yr Uwch-Swyddog Cyfrifol wedi'i fodloni nad yw'r camau a gymerwyd i sicrhau cyfansoddiad y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn ormodol ac mai dim ond y rhai y mae angen i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent eu hadnabod drwy ddefnyddio OIFR ar sail gwbl angenrheidiol a gaiff eu cynnwys.

Plant/Grwpiau sy'n Agored i Niwed
Mae'n bosibl y caiff plant neu grwpiau sy'n agored i niwed eu prosesu. Fodd bynnag, ar ôl i'w Templed Biometrig ddychwelyd Delweddau o Unigolion tebyg, ni chaiff unrhyw fanylion eraill eu prosesu a chaiff y wybodaeth hon ei dileu ar unwaith. Bydd y Gweithredwr yn derbyn y chwe Delwedd debycaf o Unigolyn a chaiff gwiriadau eraill eu cynnal â llaw er mwyn nodi a yw'r person ar y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau. Ni wneir unrhyw benderfyniadau awtomataidd fel rhan o'r broses.

Materion sy'n destun pryder
Cymesuredd a chyfreithlondeb – mae pryderon y bydd y defnydd o OIFR yn cyfyngu ar

hawl i breifatrwydd neu'n mynd yn groes i'r hawl honno neu'n atal aelodau o'r cyhoedd rhag arfer eu hawl i ryddid i ymgynnull a rhyddid mynegiant a roddir iddynt o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac nad yw unrhyw achos o gyfyngu ar yr hawliau hyn yn unol â'r gyfraith. Ni chaiff OIFR ei defnyddio lle y gallai fod yn fwy priodol defnyddio dulliau llai ymwthiol.

Mesurau diogelwch – mae pryderon nad oes digon o fesurau diogelwch mewn perthynas â'r defnydd o OIFR.

Ymgripiad swyddogaethau – mae pryderon y caiff OIFR ei defnyddio i fonitro symudiadau a gweithredoedd y cyhoedd y tu hwnt i gwmpas defnydd wedi'i dargedu neu y caiff ei defnyddio at ddibenion gwyliadwriaeth gudd.

Cadw – mae pryderon y caiff yr holl ddata a gesglir wrth ddefnyddio OIFR eu cadw fel cudd-wybodaeth. Mae pryderon hefyd y gall Delweddau o Unigolion a ddychwelwyd arwain at gadw data personol am fwy o amser nag sydd ei angen.

Disgresiwn – bu pryderon bod gan swyddogion ormod o ddisgresiwn o ran “pwy” a “ble” y caiff technoleg adnabod wynebau byw ei defnyddio, a allai fod yn berthnasol yn rhannol i'r defnydd o OIFR.

Tuedd – mae pryderon y gall algorithm y feddalwedd gynnwys tuedd gynhenid o ran nodweddion gwarchodedig hil a rhyw. Nid yw'r drefn wrth gefn ddynol lle y bydd Gweithredwr yn edrych ar y chwe Delwedd sy'n debyg i'r Unigolyn yn ddigon i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Disgrifiwch ddibenion y gwaith prosesu: beth rydych am ei gyflawni drwy brosesu'r data hyn? A fydd unrhyw effaith ar yr unigolion y mae eu data yn cael eu prosesu?
Beth yw manteision y gwaith prosesu – i chi ac yn fwy cyffredinol?

Bydd OIFR yn galluogi'r Gweithredwr i helpu i adnabod Testun. Yn unol â'r Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol, pan fydd OIFR wedi helpu i adnabod Testun, bydd hyn yn caniatáu i'r Gweithredwr gasglu rhagor o wybodaeth a chudd-wybodeth am y Testun, a gofnodir ar fynegeion yr heddlu. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw risgiau a achosir gan y Testun, y cyfeirir atynt yn aml fel 'marcwyr rhybudd'. Yna, bydd y Gweithredwr mewn gwell sefyllfa i asesu'r bygythiad a'r risg a achosir gan y Testun a nodi ffordd briodol o benderfynu ar y mater ar ôl ystyried pwerau a polisïau perthnasol. Gall hyn gynnwys y pŵer i arestio os bydd y prawf angenrheidiol ar gyfer arestio wedi'i fodloni.

Tacteg blismona yw OIFR, y bwriedir ei defnyddio i ategu tactegau'r plismona cyfredol a bydd yn helpu yn ystod y cam casglu gwybodaeth a chudd-wybodaeth o'r Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol. Efallai y bydd y defnydd o OIFR yn rhoi Gwybodaeth a Chudd-wybodaeth ychwanegol ar adegau, sy'n helpu i gyfiawnhau tacteg blismona arall, gan gynnwys pŵer i chwilio a/neu arestio.

Model Gwneud Penderfyniadau Cenedlaethol – heddlu'r UD

Cam 3: Ymgynghori

Ystyriwch sut i nodi rhanddeiliaid perthnasol ac ymgynghori â nhw: disgrifiwch pryd a sut y byddwch yn ceisio barn unigolion neu rhowch resymau pam nad yw'n briodol gwneud hynny. Pwy arall yn eich sefydliad y mae angen i chi ei gynnwys? A oes angen i chi ofyn i'ch proseswyr helpu? A ydych yn bwriadu ymgynghori ag arbenigwyr ym maes diogelwch gwybodaeth neu unrhyw arbenigwyr eraill?
Ymgysylltwyd â nifer o randdeiliaid o ddechrau'r prosiect hwn, gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ddechrau, er mwyn sicrhau dilysrwydd a thryloywder o ran preifatrwydd a'i effaith bosibl ar gymunedau. Ymgynghorwyd â'r canlynol eisoes ond mae'r rhestr yn parhau i fod yn organig ynghyd â'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ei hun wrth i'r Defnydd o'r dechnoleg aeddfedu a datblygu: 1. Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cydgysylltu a chymorth ar ôl i'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data gael ei gwblhau yn ogystal â'r ychwanegedd sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth academaidd ffurfiol tra bydd y dechnoleg yn cael ei rhoi ar waith. Barn ar

ddefnyddio technoleg Adnabod Wynebau Byw mewn mannau cyhoeddus a pharti â diddordeb (*ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2020] EWCA Civ 1058*. Yn 2019 comisiynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth adroddiad ar y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw at ddibenion gorfodi'r gyfraith lle y cafwyd y sylwadau canlynol gan aelodau o'r cyhoedd:

- nododd 82% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ei bod yn dderbyniol i'r heddlu ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw;
- roedd 72% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylid defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn barhaol mewn ardaloedd lle mae llawer o droseddau yn cael eu cyflawni;
- roedd 65% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod technoleg adnabod wynebau byw yn fesur diogelwch angenrheidiol i atal troseddau lefel isel; ac
- roedd 60% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf ei bod yn dderbyniol prosesu wynebau pawb mewn torf hyd yn oed os mai'r diben yw dod o hyd i un person o ddiddordeb yn unig.

Mae'r cyhoedd yn parhau i fod o blaid defnyddio'r dechnoleg hyd yn oed petaent yn cael eu stopio gan yr heddlu o ganlyniad i dechnoleg adnabod wynebau byw yn eu paru (ar gam) â delwedd yn y system fel person o ddiddordeb. Roedd 58% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn ei bod yn dderbyniol cael eu stopio gan yr heddlu o dan amgylchiadau o'r fath tra bod 30% o'r farn ei bod yn annerbyniol.

2. Labordy Gwyddor a Thechnoleg Amddiffyn (DSTL) – Mae'n darparu canllawiau ar gaffael, profi a defnyddio'r Dechnoleg, ynghyd â chyngor ar ddogfennaeth academaidd sy'n ategu prawf cysyniad y cynnyrch. Mae'n dal i fod yn gyfaill beirniadol i'r prosiect.

3. Rhaglen Fiometrig y Swyddfa Gartref – Canllawiau ychwanegol i ategu'r uchod gan arweinydd Rhaglen Fiometrig y Swyddfa Gartref ar Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd.

4. Pwyllgor Moeseg Annibynnol Heddlu De Cymru – ymgysylltu'n gynnar ynglŷn â'r cysyniad o roi'r dechnoleg ar waith a'r ffordd y mae'n effeithio ar breifatrwydd yn erbyn sicrhau cymunedau mwy diogel.

5. Yr Heddlu Metropolitanaidd – Trafodaethau proffesiynol ynghylch gwersi a ddysgwyd o'r defnydd blaenorol o'r dechnoleg, yn enwedig Carnifal Notting Hill, er mwyn sefydlu model arfer gorau mewn heddluoedd.

6. Heddlu Caerlŷr – Trafodaethau proffesiynol ynghylch ei ddefnydd blaenorol o swyddogaeth adnabod amser araf wrth baratoi ar gyfer rhoi ein prosiect ar waith.

7. Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu – Trafodaeth a chyngor proffesiynol ynghylch datblygu'r prosiect yn ystod ei gamau a'r defnydd o luniau a dynnwyd yn y ddalfa.

8. Y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth/Comisiynydd Biometreg – Trafodaeth broffesiynol ynghylch y cynigion ar gyfer y prosiect a rhoi'r prosiect ar waith. Mae Cod Ymarfer y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth hefyd yn nodi y gall unigolyn "rightly expect surveillance in public places to be necessary and proportionate with appropriate safeguards in place". Ystyriwyd y Cod a'r canllawiau 'Facing the Camera' fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data. Gall y Defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw hefyd ymgorffori rhestr wirio'r Comisiynydd Camerâu

Gwyliadwriaeth.

9. Y Comisiynydd Biometreg – Trafodaeth broffesiynol ynghylch y cynigion ar gyfer y prosiect a rhoi'r prosiect ar waith.

10. Y Coleg Plismona – Trafodaeth broffesiynol ynghylch defnyddio Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw.

11. Cwmni TGCh yr Heddlu – Trafodaethau proffesiynol ynghylch datblygiadau i'r system yn erbyn y darlun dymunol ar gyfer cyflwyno'r dechnoleg yn genedlaethol yn y dyfodol.

12.Sefydliad Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu – Trafodaethau proffesiynol ynghylch integreiddio ymchwil academaidd yn y dechnoleg blismona, y dilemâu sy'n gysylltiedig â hi a'r defnydd a wneir ohoni.

13. Rhaglen Cronfa Ddata Genedlaethol Gorfodi'r Gyfraith (NLEDP) – Disgwylir i ganllawiau i gefnogi llwyfan newydd gael eu cyhoeddi yn 2018.

14. Sefydliad Ada Lovelace - nododd adroddiad a gomisiynwyd ym mis Medi 2019 y byddai cefnogaeth y cyhoedd o blaid technoleg adnabod wynebau byw yn amodol ar ddangos ei heffaith o ran lleihau troseddau – roedd 71 yn cytuno â'r gosodiad, “the police should be able to use facial recognition on in public spaces, provided it helps reduce crime”.

15. Panel Moeseg Plismona Llundain (PEP) – corff annibynnol a sefydlwyd gan y maer er mwyn rhoi cyngor ar foeseg, a luniodd adroddiad ar dreialon o dechnoleg adnabod wynebau byw a gynhaliwyd gan yr Heddlu Metropolitanaidd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau arolwg cyhoeddus a ddangosodd fod:

- 57% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn ei bod yn dderbyniol i'r heddlu ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw;
- cefnogaeth y cyhoedd yn cynyddu i 83% a nododd ei bod yn dderbyniol defnyddio technoleg adnabod wynebau byw i chwilio am droseddwyr difrifol;
- 50% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn y byddai'r dechnoleg yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel; *a*
- tua thraean wedi codi pryderon ynghylch yr effaith ar eu preifatrwydd.

Roedd cyfreithlondeb defnyddio technoleg adnabod wynebau byw mewn man cyhoeddus hefyd yn destun achos llys sifil yn *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2019] EWHC 2341 (Gwein)* ac wedyn yn y Llys Apêl yn *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2020] EWCA Civ 1058 a ddyfarnodd fod:*

“…….the legal framework which regulates the deployment of AFR Locate does contain safeguards which enable the proportionality of the interference with Article 8 rights to be adequately examined. In particular, the regime under the DPA 2018 enables examination of the question whether there was a proper law enforcement purpose and whether the means used were strictly necessary.”

Ac, er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, fod yn rhaid i'r sail gyfreithiol fod yn:

"'accessible' to the person concerned, meaning that it must be published and comprehensible, and it must be possible to discover what its provisions are. The measure must be 'foreseeable' meaning that it must be possible for a person to foresee its consequences for them and it should not 'confer a discretion so broad that its scope is in practice dependant on the will of those who apply it, rather than on the law itself".

Cam 4: Cyfreithlondeb, Rheidrwydd a Chymesuredd

Rhowch wybodaeth am y gofynion canlynol neu ceisiwch gyngor gan y cynghorydd ar asesu'r effaith ar ddiogelu data neu'r Swyddog Diogelu Data:	
A fydd y data'n cael eu prosesu at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith neu at ddibenion cyffredinol? Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Brosesu at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith neu Ddibenion Cyffredinol	Y ddau
Pŵer cyfreithiol i brosesu data e.e. statud, y gyfraith gyffredin, gorchymyn llys ac ati. *(rhowch fanylion)*	Y gyfraith gyffredin – diben plismona a diben gorfodi'r gyfraith Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 Mae Polisi OIFR yn rhoi dadansoddiad manwl sy'n ymwneud ag erthygl 8 o'r Ddeddf Hawliau Dynol ac ystyriaethau cyfreithiol perthnasol eraill. Drwy gasglu delwedd bydd materion sy'n ymwneud â'r hawl i breifatrwydd o dan Erthygl 8 yn codi. Hawl amodol yw hon ac mae'n rhaid i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sicrhau bod nod dilys penodedig ac y gellir cyfiawnhau ymyrryd â'r hawl hon (fel y'i nodir uchod). Mae'r gweithredoedd yn gymesur ac yn lleihau'r potensial am ymyrraeth bellach â'r unigolyn a all fod yn angenrheidiol o dan arferion cyfredol lle mae'r Testun yn gwrthod rhoi manylion i Weithredwr. Caiff Delwedd Chwilota o'r Testun ei chofnodi ac felly caiff ei wybodaeth bersonol ei phrosesu. Caiff Templed Biometrig o'r Ddelwedd Chwilota ei chreu a'i chymharu â

	Thempledi Biometrig Personau o Ddiddordeb sy'n bodoli eisoes yn y Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau. Bydd y weithred ymarferol o brosesu'r Testun yn cymryd lai na thri chanfed ran o eiliad. Ni fydd gofyn i'r Testun roi ei oedran, ei ryw na'i ethnigrwydd gan mai'r swyddog fydd yn pennu'r rhain. Caiff data Person o Ddiddordeb sydd yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau eu prosesu ymhellach, a ystyrir yn angenrheidiol er budd y cyhoedd. Er bod y Templedi Biometrig yn bodoli eisoes, caiff y Ddelwedd Chwilota ei chymharu (ac felly ei phrosesu) â phob delwedd o Unigolyn yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau. Bydd effaith ddiriaethol prosesu o'r fath ar unigolion yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn fach iawn ac yn gyson ag arferion traddodiadol lle mae gwybodaeth bersonol unigolyn yn cael ei storio yn un o gronfeydd data'r heddlu. Bydd materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd yn codi, ond caniateir achos cyfiawn, cymesur, cyfreithiol, archwiliadwy ac angenrheidiol o ymwthiad mewn perthynas ag ymchwilio i droseddau, atal troseddau ac ymchwiliadau i unigolion coll ac ymholiadau diogelu. Pan fydd Gweithredwr yn defnyddio OIFR, caiff hyn ei ategu gan y defnydd o gamera fideo a wisgir ar y corff a fydd hefyd yn prosesu gwybodaeth bersonol. Manylir ar hyn mewn Asesiad ar wahân o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Mae'r polisi ynglŷn â Chamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff wedi cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Gweithredwr gofnodi'r cysylltiad ar ddyfais Camera Fideo a Wisgir ar y Corff pan ddefnyddir OIFR. Bydd OIFR yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n cael eu harestio ar gam a'u cadw mewn gorsaf pan na ellir cadarnhau eu hunaniaeth cyn cymryd DNA neu olion bysedd. Mewn perthynas â Thestunau sydd wedi marw, bydd OIFR yn helpu i adnabod a lleihau sawl gwaith y chwilir am berthynas agosaf bosibl ar gam er mwyn adnabod Testun. Byddai'r ymchwil gyfredol yn awgrymu bod cryn dipyn o droseddau yn Ne Cymru yn lleol ac yn cael eu cyflawni gan yr un troseddwyr ac felly ystyrir bod cymharu delweddau posibl o Unigolion yn erbyn cronfa ddata dalfeydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn dacteg berthnasol wrth geisio adnabod Testun.

<table>
<tr>
<td rowspan="2">Y sail gyfreithiol dros brosesu (dewiswch yr amodau priodol.Os bydd amodau gwahanol yn gymwys i gamau gwahanol o'r gweithgarwch prosesu rhowch ragor o fanylion)

Prosesu Cyffredinol (GDPR): Dewiswch un amod ar gyfer prosesu data personol. Os byddwch yn prosesu data categori arbennig dewiswch amod ychwanegol.

Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) - Amodau Cyfreithiol ar gyfer prosesu

Prosesu at Ddibenion Gorfodi'r Gyfraith:
Dewiswch un amod ar gyfer prosesu data personol yn unig. Os bydd data sensitif yn cael eu prosesu, dewiswch amod ychwanegol.

Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i Amodau Gorfodi'r Gyfraith</td>
<td>Cyffredinol: Data personol

X Cydsyniad
☐ Contract
☐ Buddiannau Allweddol i Fywyd
☐ Rhwymedigaeth Gyfreithiol
X Tasg Gyhoeddus
☐ Buddiannau Dilys

Noder y dibynnir ar gydsyniad a chydsyniad penodol at ddibenion profi yn unig.</td>
<td>Cyffredinol:Data categori arbennig

X Cydsyniad
Penodol
☐ Rhwymedigaethau a hawliau mewn deddfwriaeth ynglŷn â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelwch cymdeithasol
☐ Buddiannau allweddol i fywyd
☐ Aelodau neu gyn-aelodau o gorff nid er elw
☐ Mae'r data wedi cael eu gwneud yn gyhoeddus gan destun y data
☐ Hawliadau cyfreithiol
X Budd sylweddol i'r cyhoedd
☐ Iechyd
☐ Budd y cyhoedd mewn Iechyd y Cyhoedd
☐ Archifo</td>
</tr>
<tr>
<td>Gorfodi'r Gyfraith: Data personol

X Cydsyniad
X Mae angen prosesu'r data er mwyn i awdurdod cymwys allu cyflawni tasg at y diben hwnnw.
Fel uchod, dim ond at ddibenion profi y dibynnir ar gydsyniad a chydsyniad penodol</td>
<td>Gorfodi'r Gyfraith: Prosesu data sensitif yn cynnwys

X Cydsyniad
X Mae prosesu'r data yn gwbl angenrheidiol at y diben gorfodi'r gyfraith; a
X Dibenion statudol ac ati
X Diogelu buddiannau allweddol i fywyd
X Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg
☐ Data personol a</td>
</tr>
</table>

		gyhoeddwyd eisoes ☐ Hawliadau cyfreithiol ☐ Deddfau Barnwrol ☐ Archifo
Deddf Diogelu Data 2018 (i'w gwblhau pan fydd data categori arbennig (Rhan 2) neu ddata sensitif (Rhan 3) yn cael eu prosesu)	Prif ddiben prosesu yw gorfodi'r gyfraith fel y'i nodwyd yn Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data. Bydd y rhain yn cynnwys: - Atal, canfod neu erlyn troseddau ac ymchwilio iddynt ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd. Mae data biometrig megis delweddau o wynebau yn ddata sensitif ac felly'n ddarostyngedig i amodau penodol. Nodir ystyriaethau manylach o'r amodau ar gyfer prosesu yn gynharach yn y ddogfen hon. Yn gryno, mae'r prif amodau y dibynnir arnynt i brosesu data personol yn sensitif yn cynnwys: - • Dibenion statudol. • Gweinyddu cyfiawnder. • Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg. • Atal twyll • Budd sylweddol i'r cyhoedd Ystyrir bod yr achos o brosesu gwybodaeth sensitif a nodwyd yn gwbl angenrheidiol at ddibenion gorfodi'r gyfraith a bod y canlyniadau sy'n deillio o ddefnyddio'r dechnoleg hon yn bwysig er budd y cyhoedd ac na ellir eu cyflawni drwy ddulliau llai ymwthiol. Er mwyn gwasanaethu'r cyhoedd, ac yn enwedig dioddefwyr, yn y ffordd orau, mae sicrhau cyfiawnder yn gyflym ac yn effeithiol yn nod sylweddol. Byddai bron yn amhosibl i unrhyw swyddog heddlu penodol allu adnabod unigolyn yn effeithiol o blith miloedd o unigolion o bosibl o'i wyneb yn unig; mae defnyddio OIFR yn helpu'r swyddog rheng flaen i adnabod, helpu neu ddiystyru Testun. Gellid cyflawni nod tebyg drwy roi allbrint o bersonau yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau i'r swyddog ond	

	byddai hyn yn arwain at fwy o bryderon o ran Diogelu Data yn ogystal â'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â darparu rhestr gyfredol, gywir ac archwiliadwy. Credir y bydd y defnydd o OIFR yn llawer llai ymwthiol wrth adnabod Testun na defnyddio dulliau eraill, megis gwirio enw(au) ffug a roddwyd gan y Testun dro ar ôl tro yn erbyn mynegeion yr heddlu a dod ag unigolyn i'r ddalfa yn ddiangen. Gall data hefyd gael eu prosesu o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, er enghraifft ar gyfer unigolion coll; mae'r amodau perthnasol yn hyn o beth yn cynnwys: - Erthygl 9(2)(c) – buddiannau allweddol i fywyd Erthygl 9(2)(a) – cydsyniad clir O dan amgylchiadau lle rydym yn ceisio cydsyniad, byddwn yn sicrhau bod y cydsyniad yn ddiamwys ac am un neu fwy o ddibenion penodedig, yn cael ei roi drwy weithred gadarnhaol ac yn cael ei gofnodi fel yr amod perthnasol. Erthygl 9(2)(g) – Budd Sylweddol i'r Cyhoedd Erthygl 9(2)(j) – Ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol Fel yn achos dibenion gorfodi'r gyfraith, nodir yr amodau yn fanylach yn gynharach yn y ddogfen hon.
Gwybodaeth am Breifatrwydd – pa wybodaeth y byddwch yn ei darparu i'r unigolion y mae eu data yn cael eu prosesu, sut y caiff y wybodaeth hon ei darparu ac ar ba gam o'r gwaith prosesu. Os na fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei darparu, rhowch y rheswm dros hyn.	Pan ddechreuir defnyddio'r dacteg hon, bydd yn broses agored a ategir gan strategaeth gyfathrebu. Mae hysbysiadau preifatrwydd eisoes wedi cael eu diwygio a'u dosbarthu yn ogystal â'u gosod ar wefan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Bydd Gweithredwyr yn rhoi esboniad ar lafar i'r Testun ynglŷn â'r rhesymeg a'r seiliau dros ddefnyddio OIFR yn y lleoliad, oni bai bod y Testun yn anymwybodol neu wedi marw, yn ogystal â'r wybodaeth gyhoeddedig sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd y Gweithredwr yn esbonio y caiff Delwedd Chwilota'r Testun ei dileu'n awtomatig ar unwaith ac na chaiff ei rhannu ag unrhyw drydydd parti.

	Gall y Gweithredwr ychwanegu gwybodaeth am ethnigrwydd a rhyw fel mesur diogelu ychwanegol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o gamgymeriad yn y broses gymharu. Caiff gwybodaeth a ychwanegir at y Llyfr Nodiadau Poced Electronig gan y Gweithredwr ei chadw yn y ffordd arferol yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. Bydd y Testun yn cael ei gyfeirio at wefan System Technoleg Adnabod Wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent am fanylion y polisi preifatrwydd llawn. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd wedi cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am brosesu data biometrig a chyfeiriadau at wefan y System Technoleg Adnabod Wynebau. Mae trosolwg o ddogfennau ar gael i'r cyhoedd yn Atodiad A
A fydd y data personol a gesglir yn cael eu defnyddio at unrhyw ddiben arall? *(Rhowch fanylion)*	Na fyddant.
A fydd y gwaith prosesu yn cynnwys system i hwyluso arfer hawliau gan unigolion *(dewiswch yr hawliau y gellir eu harfer)*	Bydd y Testun yn cael ei gyfeirio at wefan System Technoleg Adnabod Wynebau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent am fanylion y polisi preifatrwydd llawn. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd wedi cael ei ddiwygio i gynnwys gwybodaeth am brosesu data biometrig a chyfeiriadau at wefan y System Technoleg Adnabod Wynebau. Mynediad at Ddata gan y Testun – gallai aelodau o'r cyhoedd arfer yr hawl hon gan y byddai'r heddlu yn gallu dod o hyd i'w data yn ôl-weithredol gan fod cofnod o ymholiad OIFR wedi'i fewnbynnu yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr. Mae'r defnydd o OIFR yn archwiliadwy drwy Lyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr. Rhoddir cod unigryw ar drafodiadau OIFR a gellir eu chwilio er mwyn rhoi manylion a fyddai'n helpu o ran cais am fynediad at ddata gan y testun. Yr hawl i gywiro – bydd Testunau yn gall herio prosesu lle mae OIFR a'r Gweithredwr wedi nodi cyfatebiad. Yr hawl i ddileu – Caiff y wybodaeth ei dileu fel arfer fel y'i

	nodi uchod. Os caiff gwybodaeth ei chadw am unrhyw reswm, bydd yr hawl hon ond yn gymwys lle y bo'n briodol Yr hawl i gludadwyedd data – ddim yn gymwys Yr hawl i wrthwynebu – Bydd gan bob defnydd o OIFR seiliau dilys, cymhellol a ddogfennir ymlaen llaw. Yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau a wneir yn awtomataidd gan gynnwys prosesu – ni wneir unrhyw benderfyniadau awtomataidd. Bydd pob penderfyniad yn destun ymyrraeth â llaw.
Sut y byddwch yn sicrhau bod y data sy'n cael eu prosesu yn gywir ac yn gyfredol? A fydd y gweithgarwch prosesu yn eich galluogi i ddileu neu gywiro data yn ddi-oed?	Aelodau o'r cyhoedd – caiff data eu prosesu mewn amser real. Mae proses gychwynnol o ddilysu defnyddiwr mewn amgylchedd nad yw'n fyw wedi cael ei chynnal. Mae dros 200 o chwiliadau rheoledig wedi cael eu cynnal. Ar bob achlysur, pan fydd y Ddelwedd Chwilota yn un o Destun sy'n bodoli eisoes yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau, caiff y Ddelwedd o'r Unigolyn cywir ei dychwelyd i'r Gweithredwr (wedi'i gosod yn gyntaf o blith y chwe Delwedd o Unigolion a ddychwelir). Mae'r broses ddilysu yn canolbwyntio ar unrhyw ddiffyg cydbwysedd o ran oedran, rhyw ac ethnigrwydd. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu lliniaru yn ystod y cyfnod dilysu a rhagwelir y bydd ffocws eto arnynt yn ystod y cyfnod treialu a'r gwerthusiad academaidd annibynnol. Bydd Gweithredwr hefyd yn ystyried Cyfatebiadau Posibl â llaw cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd. Fel rhan o broses gaffael yr Heddlu, rhaid arfer diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â pherfformiad disgwyliedig (neu gywirdeb) algorithm. Mae'r Sefydliad Safonau a Thechnoleg Cenedlaethol yn cynnal profion helaeth o systemau Adnabod Wynebau yn rheolaidd. Er bod y rhain yn fan cychwyn da, o ystyried amrywiadau algorithm-benodol, rhaid i berchennog y system wybod ei algorithm. Er y gall data profion gan NIST, sydd ar gael i'r cyhoedd, ddarparu gwybodaeth i berchenogion, fel arfer bydd yn ddefnyddiol mesur cywirdeb yr algorithm gweithredol yn benodol ar y setiau data delweddau gweithredol. Yn ei werthusiad o fwy na 200 o algorithmau, a gynhaliwyd yn 2019, nododd NIST fod ganddo barch mawr tuag at gyflenwr Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Caiff data eu gwirio yn erbyn cronfeydd data o ffynhonnell

	Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, a reolir yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. Sicrheir bod y cronfeydd data hyn yn gyfredol fel sy'n ofynnol at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn effeithiol fel na fydd data personol y gwyddys eu bod yn anghywir, yn anghyflawn mewn ffordd berthnasol neu nad yw'n gyfredol mwyach yn cael eu trosglwyddo. Y gronfa ddata ffynhonnell graidd yw System Rheoli Cofnodion Niche sy'n mynd drwy wiriadau trylwyr a phrofion cydbwyso er mwyn sicrhau bod y data yn gywir ac yn addas at y diben. Mae System Rheoli Cofnodion Niche yn gwahaniaethu'n glir rhwng gwahanol gategorïau o destun (e.e. pobl dan amheuaeth, unigolion a euogfarnwyd, dioddefwyr, tystion) a chaiff y wybodaeth hon ei throsglwyddo i'r Ddyfais OIFR ar adeg defnyddio OIFR. Mewn perthynas â data a geir oddi wrth y Testun, bydd hyn yn cynnwys delwedd o'i wyneb. Rhoddir canllaw arfer da sy'n cynnwys 'pum awgrym da' i Weithredwyr drwy'r Ddyfais OIFR cyn cofnodi delwedd er mwyn sicrhau y caiff y ddelwedd orau bosibl ei chofnodi er cywirdeb, gan osgoi cofnodi unigolion eraill yn y ddelwedd. Bydd personél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob delwedd mewn Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn perthyn i'r unigolyn a fwriedir. Ni chymerir unrhyw gamau yn erbyn Testun heb i ystyriaeth ddynol gael ei rhoi i Gyfatebiad Posibl. Mae OIFR wedi'i hintegreiddio â chymhwysiad symudol presennol y Llyfr Nodiadau Poced Electronig sydd wedi bodoli ers 2015. Cyd-fenter rhwng Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a chwmni meddalwedd yw'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig ac mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o'i ddatblygu. Mae'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig wedi bod ar gael i swyddogion Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ers 2015 drwy'r porth at fynegeion presennol yr heddlu, gan gynnwys System Rheoli Cofnodion Niche, y gronfa ddata ar gyfer Gwarantau a Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn parhau i weithredu fel y prif heddluoedd o ran datblygu'r Llyfr Nodiadau Poced Electronig, gwaith sy'n cael ei gydlynu drwy'r Is-adran Gwasanaethau Digidol fewnol.

	Ni all data a gofnodir gan Weithredwr mewn Llyfr Nodiadau Poced Electronig gael eu dileu gan y Gweithredwr ond gellir gwneud diwygiad manwl.
A yw'r gwaith prosesu yn ei gwneud yn ofynnol i chi gadw'r wybodaeth hon ar ffurf adnabyddadwy? *(Os ydyw, rhowch y rhesymau dros hyn)* A allech anonymeiddio'r data neu ddefnyddio ffugenwau er mwyn cyflawni eich nod?	Bydd angen i'r unig wybodaeth a gedwir fod ar ffurf adnabyddadwy er mwyn i'r diben plismona/diben gorfodi'r gyfraith allu cael ei gyflawni. Bydd angen i unrhyw ddata a gedwir ar ôl i'r defnydd o OIFR gael eu cadw yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996; *a/neu* yn unol â pholisïau cwynion/ymchwilio i ymddygiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae systemau technegol a gweithdrefnau gweithredu safonol yn helpu i sicrhau bod data yn cael eu cadw'n briodol neu eu dileu. Caiff systemau prosesu a pholisi a systemau OIFR eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y data personol a ddelir yn gymesur â dibenion plismona. Y Gweithredwr sy'n diffinio oedran, rhyw ac ethnigrwydd y Testun pryd bynnag y caiff OIFR ei defnyddio, ni waeth a oes cyfatebiad ai peidio. Bydd y manylion a bennwyd gan y Gweithredwr yn gyson â'r protocolau cyfredol ar stopio a chwilio. Mae hyn yn ofynnol yn bennaf at ddibenion archwilio ac er mwyn helpu i ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y dyfodol. Mae'n debyg y bydd canlyniadau'r treial o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae OIFR wedi cael ei dylunio i ymateb i'r ceisiadau hyn a sicrhau atebolrwydd. Nid oes angen y manylion hyn i helpu i adnabod y Testun. Mae angen i'r Delweddau o Unigolion yn y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau fod yn adnabyddadwy i'r heddlu ac ni ellir eu hanonymeiddio na defnyddio ffugenwau er mwyn cyflawni nod y defnydd.

Am faint o amser y bydd angen i chi gadw'r data personol? *(Nodwch y fframwaith y nodwyd y caiff y data eu cadw oddi tano)* Pa systemau sydd ar waith er mwyn adolygu neu waredu'r data neu eu dileu pan na fydd eu hangen mwyach?	**Yn benodol i OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau** • Delwedd o'r Testun fel y'i cofnodwyd gan OIFR (Delwedd Chwilota) – sy'n cael ei dileu ar unwaith ar y Ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau. • Templed Biometrig o Ddelwedd Chwilota – yn cael ei ddileu ar unwaith yn y system technoleg adnabod wynebau • Delweddau o Unigolion a'r Templed Biometrig (a ddelir ar y system technoleg adnabod wynebau) – yn dilyn yr un cyfnodau cadw â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu ar gyfer System Rheoli Cofnodion Niche **Llyfr Nodiadau Poced Electronig** • Llyfr Nodiadau Poced Electronig – cyfnod cadw gwybodaeth bersonol yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (a nodir yn fanwl yn yr Adolygiad o'r effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y Llyfr Nodiadau Poced Electronig), heb gynnwys y Ddelwedd Chwilota. **System Ffynhonnell – Lluniau a dynnwyd yn y Ddalfa a Lluniau o Unigolion Coll** Cyfeiriwch at Adolygiad y Swyddfa Gartref o Ddefnyddio a Chadw Lluniau a dynnwyd yn y Ddalfa a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 (argymhelliad 4) gan fod y cyfnodau a argymhellir yn gymwys i'r categorïau canlynol o ddata: Dim euogfarn – ar gais Group 1 or 2 (Public Protection Matters & sexual, violent or other serious offences respectively) – 10 years upon request then review Grŵp 3 (pob trosedd arall) – 6 blynedd ar gais ac wedyn adolygiad Grŵp 4 (unigolion coll) – 6 blynedd wedyn adolygiad

	Caiff yr holl ddata personol eraill eu storio yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. Grŵp 1 – y testun yn 100 oed wedyn adolygiad Grŵp 2 – cyfnod clir o 10 mlynedd wedyn adolygiad Grŵp 3 – cyfnod clir o 6 blynedd Grŵp 4 (unigolion coll) – 6 blynedd wedyn adolygiad
Pa fesurau sefydliadol a thechnegol a fydd ar waith er mwyn diogelu'r data personol rhag cael eu prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon a rhag cael eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio neu eu difrodi? Sut y byddwch yn monitro effeithiolrwydd parhaus y mesurau diogelwch? *Noder: os byddwch yn defnyddio proseswyr data pa warantau y byddwch yn eu cael am eu gallu parhaus i gadw'r data yn ddiogel?	Amlinellir risgiau i breifatrwydd a nodwyd yn y ddogfen hon ond maent yn ymwneud yn bennaf â phrosesu delweddau o wynebau y tynnir data biometrig ohonynt (data sensitif). Lleihawyd y risg o'r cychwyn drwy ddarparu system Technoleg Adnabod Wynebau a gynhelir gan heddlu. Mae'r lluniau a dynnwyd yn y ddalfa ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau wedi'u cyfyngu i gronfa ddata o luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn ardal Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau o unigolion coll hefyd wedi'i chyfyngu i unigolion coll o ardal Heddlu De Cymru. Mae Gweithredwyr wedi'u fetio'n briodol. Caiff data eu rhannu â thrydydd partïon megis cyrff academaidd annibynnol wrth ddarparu adolygiad academaidd (lle mae'r unigolion hefyd wedi'u fetio) drwy Gytundeb Rhannu Gwybodaeth. Ymdriniwyd â materion sy'n ymwneud â throsglwyddo data yn y ddogfen hon a chaiff data eu cadw yn unol â gofynion Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. Rhoddir hyfforddiant a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol i bob Gweithredwr sy'n defnyddio OIFR. Pennir cyfnodau cadw. Mae'r gweithgarwch prosesu yn archwiliadwy er mwyn nodi camddefnydd.

	Darperir y dyfeisiau gan yr heddlu felly maent yn cynnwys mesurau diogelwch priodol, gan gynnwys profion dilysu a datgysylltu ar ôl amser penodol. Ni chymerir unrhyw gamau heb i'r Gweithredwr ystyried y Delweddau o Unigolion â llaw. Bydd y cymhwysiad yn cynnwys cyfrinair wedi'i amgryptio. Mae'n rhaid i bob swyddog sy'n defnyddio'r cymhwysiad fynd drwy brawf dilysu i agor y Llyfr Nodiadau Poced Electronig drwy enw defnyddiwr a chyfrinair (cyfeiriadur gweithredol). Caiff delweddau a gwybodaeth bersonol arall eu trosglwyddo o ffôn clyfar y Gweithredwr ar weinyddion ar y safle drwy Rwydwaith Preifat Rhithwir. Mae gwybodaeth bersonol wedi cael ei throsglwyddo o ffôn clyfar swyddogion i weinyddion ar y safle ers 2015 a manylir ar hyn yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y Llyfr Nodiadau Poced Electronig. Rheolir y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau gan nifer o godau ymarfer, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i'r heddlu megis Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Mae trefniadau llywodraethu mewnol wedi cael eu sefydlu ar gyfer OIFR ac mae'r Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometrig yn gyfrifol am lywodraethu ac atebolrwydd. Sicrheir atebolrwydd ymhellach drwy ddyrannu Uwch-Swyddog Cyfrifol. Delir y data yn ddiogel ar systemau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sy'n hygyrch i swyddogion a staff Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ac sy'n seiliedig yn llwyr ar ganiatâd. Caiff cyfrif swyddogion sy'n gadael Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ei analluogi'n awtomatig ac, felly, ni fyddent yn gallu gweld y wybodaeth mwyach. Nid yw'r data a ddelir ar systemau Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ymwneud yn benodol ag OIFR (mae'r data yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar OIFR i greu Cronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau ac yn ymwneud â gwybodaeth blismona a gynhyrchir ar ôl defnyddio OIFR).

	Pan gaiff Delwedd o Unigolyn ei dychwelyd wrth ddefnyddio OIFR, bydd ymyriad gan y Gweithredwr i asesu'r delweddau a, lle y bo angen, bydd y swyddog yn siarad â'r Testun a nodwyd fel Cyfatebiad Posibl cyn i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd. Caiff y defnydd o OIFR fel adnodd i adnabod pobl sydd o ddiddordeb i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ei ystyried ochr yn ochr ag adnoddau a thactegau plismona eraill. Ystyrir pa mor effeithiol ac ymwthiol yw dulliau ymarferol eraill a allai gyflawni'r un canlyniad, gyda'r dull ymarferol lleiaf ymwthiol yn cael ei fabwysiadu er mwyn bwrw ymlaen ag ymchwiliad. Mae Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn darparu ar gyfer hyfforddi swyddogion a staff sy'n ymwneud â'r defnydd o OIFR Cymru/Heddlu Gwent. Cyflwynir yr hyfforddiant hwn yn bennaf gan hyfforddwr o'r Is-adran Gwasanaethau Digidol. Mae'r hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod swyddogion a staff mewn rolau penodol: 1. yn gyfarwydd â Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent; 2. yn gwybod beth yw'r seiliau a'r rhesymeg dros ddefnyddio OIFR; 3. yn deall sut i brosesu data personol yn gyfreithlon yn unol â Deddf Diogelu Data 2018; 4. yn deall cwmpas Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000; 5. yn gyfarwydd â phwerau'r heddlu a sut y gallant fod yn gymwys wrth ymateb i Gyfatebiadau Posibl; 6. yn gwybod sut i gyflunio OIFR er mwyn sicrhau bod y system yn perfformio cystal â phosibl a sut i leihau'r effaith ar eraill; 7. yn deall nodweddion OIFR sy'n effeithio ar y tebygolrwydd bod Cyfatebiad Posibl yn ddibynadwy. Mae Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael yr un mynediad at iPatrol ac OIFR. Mae'r broses o gyflwyno OIFR wedi'i chyfyngu i 60 o swyddogion peilot drwy Airwatch, sef y cymhwysiad diogel a ddefnyddir i reoli asedau ffonau symudol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.

	Mae mynediad at y System Technoleg Adnabod Wynebau a'r cronfeydd data ffynhonnell ategol yn defnyddio rolau i neilltuo breintiau. Mae hyn yn golygu y gellir neilltuo lefelau o fynediad i unigolion yn seiliedig ar lefel caniatâd, po uchaf lefel y caniatâd, mwyaf o fynediad a gaiff yr unigolyn i newid gosodiadau'r cymhwysiad. Caiff pob defnydd o OIFR ei gofnodi yn Llyfr Nodiadau Poced Byddai'r tîm Rheoli Gwybodaeth yn cael ei hysbysu am unrhyw achos o dorri cyfrinachedd y gronfa ddata hon drwy ffurflen ar-lein sydd ar gael ar fewnrwyd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent (BOB/BEAT.) Ceir cyfarwyddiadau ynglŷn â sut a phryd y dylid cwblhau'r ffurflen hon ar fewnrwyd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae unrhyw ddyfeisiau coll wedi'u diogelu gan fesurau diogelwch cyfrinair sawl haen a gellir dileu'r wybodaeth arnynt o bell. Parheir i gydgysylltu â Swyddog Diogelwch Gwybodaeth ac Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
A fydd y data personol yn cael eu dal neu eu trosglwyddo y tu allan i'r DU? *(Os byddant, rhowch fanylion y lleoliad, yr amgylchedd lle y caiff y data eu dal, y rheswm dros eu trosglwyddo a mesurau diogelwch)*	Na fyddant. Caiff data a ddefnyddir ar gyfer y broses hon eu dal ar safleoedd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn y DU
A fydd cytundeb neu gontract rhannu gwybodaeth ar waith gyda'r holl bartïon y caiff data personol eu rhannu â nhw? *(Rhowch fanylion)*	Bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhannu pan fydd angen gwneud hynny at ddiben plismona fesul achos. Felly, nid oes angen cytundeb. Bydd contract ar waith gyda chyflenwr yr algorithm. Gellid rhannu gwybodaeth ag Adran Biometreg y Swyddfa Gartref, y Labordy Gwyddor a Thechnoleg Amddifyn a phartneriaid academaidd fel rhan o'r gwerthusiad academaidd ehangach o'r materion sy'n ymwneud â phrofi'r cysyniad yn y prosiect. Fodd bynnag, dim ond drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael a gofnodwyd yn ystod y cyfnodau cadw penodedig y gellid hwyluso hyn.

	Yn dechnegol, nid yw'r data byth yn cael eu trosglwyddo i bartneriaid academaidd gan fod y data yn cael eu gosod mewn 'man gwylio'. Mae'r nodwedd archwilio yn ychwanegu haen arall i ddiogelu'r data. Bydd cytundeb rhannu gwybodaeth rhwng Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a gwerthuswyr academaidd mewn perthynas ag ymchwil academaidd. Byddai'r wybodaeth rydym yn ei rhannu â phartneriaid academaidd yn cynnwys mynediad at gofnodion archwilio Llyfrau Nodiadau Poced Electronig. Byddwn hefyd yn rhoi'r manylion mwy cyffredinol am y defnydd o OIFR i werthuswyr academaidd, gan gynnwys y rhesymeg dros y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a'i maint. Ni chaiff cynnwys llawn y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ei rannau â gwerthuswyr academaidd. Caiff pob aelod o staff gweithredol a phob gwerthuswr academaidd ei fetio a'i glirio i lefel MV/SC o leiaf. Caiff manylion y cynllun peilot eu rhannu ag aelodau gweithredu presennol Bwrdd y Strategaeth Fiometreg Genedlaethol a Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae aelodau'r byrddau hyn yn cynnwys rheoleiddwyr a chomisiynwyr â diddordeb, gan gynnwys y Comisiynydd Biometreg, y Comisiynydd Gwybodaeth, y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, y Rheoleiddiwr Gwyddoniaeth Fforensig a Phrif Gynghorydd Gwyddonol Cenedlaethol yr Heddlu.

Cam 5: Nodi ac asesu risgiau sy'n ymwneud â

Rhif	Nodi'r risg – Achos, digwyddiad, effaith	Tebygolrwydd	Effaith	Risg gyffredinol
		U,C,I	U,C,I	U,C,I
1	Mae risg yn gysylltiedig â dileu'r Ddelwedd Chwilota ar unwaith pan fydd unigolyn yn deestun OIFR ac nad yw'n cael ei adnabod.	C	C	C

	Dim ond y wybodaeth sylfaenol am y Testun a gofnodir gan y Gweithredwr. Mae'n bosibl y bydd yn anodd adnabod yr ymholiad weithiau os bydd Testun yn gwneud cais am fynediad at ddata yn ddiweddarach.			
2	O ganlyniad i ddefnyddio OIFR, mae risg na fydd gwybodaeth am brosesu teg ar gael yn eang i aelodau o'r cyhoedd, sy'n golygu na chânt eu hysbysu am y ffaith bod eu data personol yn cael eu prosesu, a fydd yn arwain at achos posibl o dor diogelwch data, mwy o gwynion, achosion llys, camau gorfodi a niwed i enw da'r heddlu	C	C	C
3	O ganlyniad i ddefnyddio OIFR mae risg y bydd yn ymyrryd â'r hawl i breifatrwydd neu'n atal aelodau o'r cyhoedd rhag arfer eu hawl i ryddid i ymgynnull a rhyddid mynegiant a roddir iddynt o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac nad oes unrhyw achos o gyfyngu ar yr hawliau hyn yn unol â'r gyfraith, a allai arwain at heriau cyfreithiol, hawliadau ariannol a mwy o gwynion	C	C	C
4	Mae'n bosibl y bydd unigolyn am gwyno am y defnydd o OIFR oherwydd bydd hyn wedi'i gyfyngu i swyddogion a lleoliad yn ystod y treial.	C	C	C
5	Defnyddir OIFR sy'n rhan o broses adnabod anghywir sy'n arwain at ddiddymu rhyddid Testun a'i arestio'n anghyfreithlon.	I	U	U
6	O ganlyniad i allu eang OIFR i brosesu llawer data biometrig, mae risg y gallai gormod o ddata personol gael eu prosesu a all arwain at gamau rheoleiddio.	C	U	U
7	O ganlyniad i allu OIFR i brosesu llawer iawn o ddata, mae risg y gallai gael ei defnyddio at ddibenion gwyliadwriaeth gudd, sy'n golygu y gallai data gael eu prosesu'n angyfreithlon, a allai arwain at achosion llys, colli cyfleoedd i erlyn, mwy o gwynion, niwed i enw da'r heddlu ac, o bosibl, gamau gorfodi rheoleiddiol	U	U	U
8	Ni fydd Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn cynnwys data byw ac felly	I	I	I

	mae'n bosibl y bydd methiant i adnabod unigolion sy'n agored i niwed, a all arwain at fwy o niwed o bosibl.			
9	O ganlyniad i ymarferion dileu anghyflawn posibl, mae risg y gallai Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau gael eu llunio gan ddefnyddio lluniau a dynnwyd yn y ddalfa a ddylai fod wedi cael eu dileu o systemau'r heddlu yn unol â gweithdrefnau cadw a dileu sefydledig neu gan ddefnyddio delweddau o darddiad ansicr lle y gall cywirdeb fod yn broblem (e.e. delweddau a gafwyd o'r cyfryngau cymdeithasol), mae risg y gallai'r rhain arwain at ymyrryd digyfiawnhad ac o bosibl achosi niwed direswm a digyfiawnhad i unigolion	C	U	U
10	O ganlyniad i wahanol senarios lle y gellid rhoi gwybod bod unigolyn ar goll, mae risg na fydd defnydd o OIFR i ddod o hyd i'r unigolyn hwnnw yn bodloni'r trothwy cwbl angenrheidiol ac y gallai fod yn anghyfreithlon, a allai arwain at her gyfreithiol, cwynion a chosbau ariannol neu gamau gorfodi rheoleiddiol	C	U	U
11	Lle nad yw'r heddlu wedi cwblhau dogfen bolisi briodol, mae risg y bydd yn mynd yn groes i adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018, a allai arwain at gamau gorfodi rheoleiddiol a/neu gosbau ariannol.	I	U	C
12	O ganlyniad i ganllawiau anghyson ar sut i ddefnyddio OIFR, mae risg y gallai swyddogion arfer gormod o ddisgresiwn ynghylch pa ddelweddau i'w cynnwys ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau, a allai arwain at brosesu gormod o ddata a phrosesu data'n anghyfreithlon, a allai arwain at her gyfreithiol, cwynion ac, o bosibl, gamau gorfodi.	U	U	U
13	Mae risg na fydd gan swyddogion sy'n ymwneud â'r defnydd o OIFR ddigon o wybodaeth am ddiogelu data, sy'n golygu na roddir ystyriaeth ddigonol i'r gofynion ar gyfer defnyddio OIFR ac y gallai Deddf Diogelu Data 2018 gael ei thorri, a allai arwain at gamau gorfodi, camau cyfreithiol a chosbau ariannol.	C	U	C

14	O ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, mae risg nad ymdrinnir â data a gofnodir ar y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau o fewn Cynllun Marcio Amddiffynnol cywir y Llywodraeth, sy'n golygu na fydd data wedi'u diogelu'n ddigonol wrth gael eu trin ac y gallai data gael eu colli a'u difrodi	I	I	I
15	O ganlyniad i ddiffyg hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, mae risg y caiff y Cronfeydd Cyfeirio Delweddau neu ddata eraill a gynhyrchir gan OIFR eu datgelu'n anghyfreithlon i drydydd partïon.	I	C	C
16	O ganlyniad i fethiant technegol, mae risg na fydd cyfarpar yn gweithio'n iawn, a fydd yn arwain at ddychwelyd delweddau anwir neu fethiant i nodi Cyfatebiadau Posibl, a allai arwain at niwed a gofid neu'r bygythiad o risg a niwed i eraill	I	U	C
17	Os caiff sawl unigolyn eu cofnodi yn y Ddelwedd Chwilota, mae risg y caiff eu gwybodaeth bersonol eu prosesu pan gaiff y ddelwedd ei chofnodi.	I	C	C
18	Gall prosesu gwybodaeth bersonol plant ac unigolion sy'n agored i niwed yn absenoldeb rhiant neu warcheidwad beri gofid meddwl i'r unigolyn.	C	C	C
19	Gall y defnydd o OIFR beri i'r cyhoedd deimlo bod OIFR yn cael ei defnyddio'n anghymesur tuag at bobl o gefndiroedd ethnig a all arwain at her gyfreithiol, cwynion a chamau gorfodi o bosibl.	C	U	U

Cam 6: Nodi mesurau i leihau risg

Rhif	Mesur i leihau neu ddileu risg	Y Ffordd yr Ymdriniwyd â'r Risg	Risg Weddilliol	Cymeradwywyd y mesur
		Lleihawyd Dilëwyd Derbyniwyd Trosglwyddwyd	U,C,I	√/X

1	Er mwyn lliniaru hyn, cofnodir lleoliad GPS yr ymholiad yn Llyfr Nodiadau Poced Electronig y Gweithredwr a hefyd y dyddiad a'r amser. Bydd y Gweithredwr hefyd yn rhyngweithio â'r Testun felly mae'n debygol iawn y bydd y Testun yn ymwybodol ei fod wedi bod yn destun OIFR.	Llai o risg	I	√
2	Bydd strategaeth gyfathrebu ar waith cyn cynnal cynllun peilot OIFR er mwyn sicrhau y caiff pob ffordd bosibl o gyfleu'r ffaith y cynhelir cynllun peilot ei defnyddio drwy wahanol sianeli, gan gynnwys digidol a ffisegol, a bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd er mwyn sicrhau y gallant fod yn hyderus bod y penderfyniadau a wnaed i gynnal cynllun peilot yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dadansoddiad tryloyw.	Llai o risg	I	√
3	Bydd yr asesiad a gynhelir cyn y defnyddir OIFR yn cadarnhau a yw ymyrryd â'r hawliau hyn yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyfreithlon ac a oes dulliau llai ymwthiol y gellid eu defnyddio. Bydd cyfiawnhad cadarn, llawn yn cael ei ddogfennu wrth ei defnyddio.	Llai o risg	I	√
4	Hyd yma, ni fu unrhyw gŵyn swyddogol ynglŷn â defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau ond mae unigolyn a fu'n destun technoleg adnabod wynebau byw wedi dwyn Adolygiad Barnwrol a wrandawyd ym mis Mai 2019 gydag Apêl ganlyniadol ym mis Mehefin 2020. Caiff gweithredwyr eu hannog i gael a chofnodi manylion pob Testun.	Llai o risg	I	√
5	Nid yw methiant i ganiatáu i Weithredwr gofnodi delwedd yn gyfystyr â throsedd ac ni ellir arestio neb. Os caiff y Ddelwedd Chwilota ei	Llai o risg	I	√

	gyfateb yn anghywir i Ddelwedd Unigolyn gall hyn arwain at arestiad anghyfreithlon. Nid yw'r risg yn hyn o beth yn fwy cyffredin nag mewn arferion presennol yr heddlu wrth integreiddio mynegeion yr heddlu.			
6	Bydd asesiadau'r Gweithredwr cyn defnyddio OIFR yn ystyried ac yn dogfennu pam nad yw dulliau llai ymwthiol yn briodol ac yn cyfiawnhau'r defnydd o OIFR yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar yr y pryd.	Llai o risg	I	√
7	Bydd angen i unrhyw wyliadwriaeth gudd gael ei hawdurdodi o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn unol â'r trefniadau ar gyfer unrhyw wyliadwriaeth gudd.	Dilëwyd	I	√
8	Mae'r oedi rhwng Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a systemau ffynhonnell wedi cael ei leihau i ddeng munud a fydd yn lleihau'r cyfle i golli delweddau wrth ddefnyddio OIFR yn sylweddol.	Llai o risg	I	√
9	Cyfyngir ar faint y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau a byddant yn cynnwys delweddau cywir y gellir eu dilysu a ddelir neu a gafwyd yn gyfreithlon gan yr heddlu at ddiben gorfodi'r gyfraith ar adeg defnyddio'r dechnoleg. Nid ymgysylltir ag unrhyw unigolion heb wirio Cyfatebiadau Posibl heb ymyrraeth â llaw er mwyn lleihau unrhyw niwed a gofid. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wrthi'n ymgysylltu â chyflenwr System Rheoli Cofnodion Niche i ddatblygu'r ffordd o ddileu lluniau a dynnwyd yn y ddalfa yn achos dim euogfarn. Maent hefyd yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgor Rheoli Cofnodion Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a sefydlwyd i arwain y gwaith o ddod o hyd i ateb	Llai o risg	I	√

	cenedlaethol. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd wedi hysbysebu'r broses o wneud cais i ddileu delwedd yn achos dim euogfarn ym mhob dalfa.			
10	Pan fydd OIFR yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i unigolyn coll, cynhelir prawf 'cwbl angenrheidiol' er mwyn nodi i ba raddau y mae'r unigolyn coll yn agored i niwed ac a oes digon o gudd-wybodaeth i awgrymu y gall yr unigolyn fod mewn ardal benodol ar adeg benodol. .	Llai o risg	I	√
11	Bydd gan yr heddlu ddogfennau polisi priodol ar gyfer OIFR i brosesu data o dan Ran 2 a Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018.	Dilëwyd	I	√
12	Mae gweithdrefnau gweithredu safonol OIFR yn nodi'r seiliau a'r rheswm dros ddefnyddio OIFR, gan sicrhau cysondeb a goruchwyliaeth ar gyfer pob defnydd a wneir ohoni.	Llai o risg	I	√
13	Fel rhan o'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio OIFR darperir hyfforddiant priodol ar ddiogelu data.	Llai o risg	I	√
14	Mae holl staff/swyddogion Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cael hyfforddiant mewn perthynas â Chynllun Marcio Amddiffynnol y Llywodraeth (GPMS). Mae Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau yn cydymffurfio'n awtomatig mewn amgylchedd diogel nad oes gan y cyhoedd fynediad iddo. Bydd pob Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau wedi'i storio'n briodol cyn cynllun peilot OIFR.	Derbyniwyd	I	√
15	Nid oes gan swyddogion/staff sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot fynediad hawdd at y Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau llawn a chânt eu briffio mewn perthynas â chylchredeg delweddau o'r Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau	Llai o risg	I	√

	ac maent wedi cael eu hysbysu na chaniateir datgelu'r data sensitif hyn y tu allan i'r tîm rheoli a'r swyddogion a'r staff cymorth technegol sy'n rhan o'r cynllun peilot. Gallai unrhyw gamau gweithredu yn dilyn defnydd o OIFR gynnwys Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn gweithio gyda heddluoedd eraill, cyrff gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill er mwyn helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i arfer eu pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin. Ni fydd y camau gweithredu hyn yn gofyn am rannu data biometrig ond efallai y byddant yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent rannu data personol, fel y byddent yn ei wneud ar gyfer unrhyw ymchwiliad, yn unol â threfniadau rhannu arferol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae mesurau diogelwch ffisegol a thechnegol ar waith (fel y'u disgrifiwyd yn yr asesiad hwn o'r effaith ar ddiogelu data) i ddiogelu OIFR.			
16	Mae'r dechnoleg wedi cael ei threialu a'i phrofi gan Heddlu De Cymru. Mae algorithmau NEC hefyd wedi'u gwerthuso gan NIST ac Adran Diogelwch Cartref Llywodraeth UDA ac mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ystyried y canfyddiadau hyn. Caiff yr holl wybodaeth berthnasol ei chofnodi at ddibenion archwilio. Mae Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd yn amlinellu pwyntiau sy'n ymwneud ag OIFR er mwyn sicrhau y caiff ei defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod mor effeithiol â phosibl.	Llai o risg	I	√

	Caiff effeithiolrwydd parhaus defnydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o OIFR ei adolygu gan y Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg a'r Uwch-Swyddog Cyfrifol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y defnydd a wneir o OIFR yn y dyfodol yn adlewyrchu'r hyn a ddysgir o'r cynllun peilot a bod y defnydd o OIFR yn parhau i fod yn adnodd plismona effeithiol a chymesur			
17	Wrth ddefnyddio OIFR a chyn cofnodi Delwedd Chwilota briodol, mae'r Gweithredwyr yn derbyn rhybudd ar y sgrin i sicrhau mai dim ond un Testun a gofnodir yn y Ddelwedd Chwilota.	Llai o risg	I	√
18	Un o brif swyddogaethau OIFR yw diogelu unigolion sy'n agored i niwed ac mae'n debygol y caiff OIFR ei defnyddio ar blant a phobl sy'n agored i niwed. Weithiau caiff hyn ei wneud yn absenoldeb rhiant neu warcheidwad mewn modd tebyg i'r ffordd y mae Camera Fideo a Wisgir ar y Corff neu wirio enw'r Testun hwnnw yn digwydd ar hyn o bryd.	Derbyniwyd	C	√
19	Wrth ddefnyddio OIFR, bydd yn rhaid i'r Gweithredwr gofnodi ethnigrwydd y Testun a ddiffinnir gan y swyddog yn ogystal â manylion am nodweddion gwarchodedig eraill. Bydd hyn yn galluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i fonitro ac ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy'n ymwneud â defnydd anghymesur.	Llai o risg	I	√

Cam 7: Cymeradwyo a chofnodi canlyniadau

Cam Gweithredu	Enw, swydd, dyddiad	Nodiadau
Cymeradwywyd y mesurau gan:	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd 22.10.2021	Rhaid i gamau gweithredu gael eu hintegreiddio yng nghynllun y prosiect gyda dyddiadau cwblhau a pherchenogion camau gweithredu
Cymeradwywyd y Risgiau Gweddilliol gan:	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd 22.10.2021	Os ydych yn derbyn risgiau uchel gweddilliol, dylech eu cyfeirio at y Swyddog Diogelu Data er mwyn iddo ystyried ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn mynd ymlaen
Darparwyd cyngor gan y Swyddog Diogelu Data	Louise Voisey 25.10.2021	Y Swyddog Diogelu Data i roi cyngor ar gydymffurfiaeth, mesurau lliniaru ac a all y gwaith prosesu fynd yn ei flaen
Crynodeb o gyngor y Swyddog Diogelu Data: Rwyf wedi fy modloni bod sylw wedi'i roi i'r holl ystyriaethau ynglŷn â diogelu data mewn perthynas â'r defnydd o OIFR gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, a gyda mantais gwybodaeth gan reoleiddwyr a'r llysoedd am eu disgwyliadau o ran cyfreithlondeb a phreifatrwydd. Os bydd newid sylweddol i'r ffordd y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn defnyddio OIFR, dylid ailedrych ar yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn ystyried unrhyw risgiau newydd o ran preifatrwydd i'r unigolion hynny y gallai eu manylion gael eu defnyddio neu eu casglu wrth ddefnyddio'r dechnoleg yn y dyfodol. Nid yw hyn yn golygu y dylid cymhwyso'r holl ystyriaethau bob tro y defnyddir y dechnoleg er mwyn ystyried amgylchiadau, rheidrwydd a chymesuredd yr unigolion a'r lleoliadau y bydd yn eu cynnwys.		
Derbyniwyd neu gwrthodwyd cyngor y Swyddog Diogelu Data gan:	Derbyniwyd y cyngor gan y Prif Uwch-arolygydd Belcher 25.01.2022	Os cafodd ei wrthod, rhaid rhoi esboniad.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:
Heddlu:

Sylwadau:		
Adolygwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan:	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd 16.11.2021	Os nad yw'r penderfyniad yn cyd-fynd â barn yr ymgyngoreion esboniwch pam
Sylwadau:		
Caiff yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei adolygu'n rheolaidd gan:	Yr Arolygydd Andrew Hedley, Arweinydd Gweithredol Technoleg Adnabod Wynebau	Dylai'r Swyddog Diogelu Data hefyd adolygu cydymffurfiaeth barhaus â'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Atodiad A – Gwybodaeth sydd Ar Gael i'r Cyhoedd

Mae gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent Strategaeth a Strwythur Llywodraethu Gwybodaeth aeddfed ar waith. Mae'n ymgorffori'r gofynion i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent fod yn agored ac yn dryloyw (lle y bo'n briodol ac yn bosibl) ynghylch y ffordd y caiff data eu prosesu. I'r perwyl hwn ac ar ôl ystyried y risgiau i'r hawl hon sy'n gysylltiedig â'r defnydd o OIFR, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi mabwysiadu sawl mesur er mwyn sicrhau bod yr hawl i gael eich hysbysu yn cael ei chynnal.

Mae cyhoeddi Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, polisi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar ddiogelu data categori arbennig a data euogfarnau troseddol a dogfennau allweddol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent sy'n ymwneud ag OIFR ar wefan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn fesur allweddol. Er nad yw'n ofynnol i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gyhoeddi nifer o'r dogfennau hyn mae wedi dewis gwneud hynny. Mae hwn yn fesur pwysig i roi gwybodaeth i'n cymunedau gan gynnwys y cyhoedd sy'n destun OIFR a'r rhai a allai gael eu rhoi ar Gronfeydd Data Cyfeirio Delweddau er mwyn iddynt ddeall y safonau y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent, fel corff cyhoeddus, yn gweithredu yn unol â nhw. Wrth wneud hynny, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn darparu manylion ynglŷn â'r gofynion i ddefnyddio OIFR, a'r ystyriaethau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol i bwy a all gael ei roi ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau. Fel hyn, gellir rhagweld ac asesu defnydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o OIFR. Mae'r dogfennau cyhoeddedig yn darparu gwybodaeth fel y'i nodir yn y tabl isod.

Dogfennau allweddol sydd ar gael i'r cyhoedd	**Gwybodaeth a gynhwyswyd**
Hysbysiad Preifatrwydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent:	• Enw a manylion cyswllt y Rheolydd Data • Manylion y Swyddog Diogelu Data • Cwmpas a dibenion gweithgarwch prosesu data personol gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent • Cyfnodau cadw data • Trefniadau rhannu data • Diogelwch data • Hawliau fel testun data (gan gynnwys yr hawl i weld data, eu cywiro a'u dileu) • Cwynion (gan gynnwys yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a manylion cyswllt)
Polisi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar ddiogelu data categori arbennig a data euogfarnau troseddol	• Dull Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o ddiogelu a phrosesu data categori arbennig a data euogfarnau troseddol mewn perthynas â'r egwyddorion diogelu data • Cyfrifoldebau'r Rheolydd Data • Gwybodaeth am ddileu a chadw data • Sut y gellir ceisio rhagor o wybodaeth.
Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu	• Y sail gyfreithlon dros brosesu data mewn perthynas ag OIFR. Gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol:

Gwent	○ Pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin ○ Deddf Hawliau Dynol 1998 ○ Deddf Cydraddoldeb 2010 ○ Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 ○ Deddf Diogelu Data 2018 ○ Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
Dogfen Bolisi OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Bwriad ac amcanion strategol amlinellol ar gyfer defnyddio OIFR a'r ffordd y caiff data personol eu defnyddio gan y system technoleg adnabod wynebau • Cyfnodau cadw data sy'n gymwys i'r OIFR
Prosesau Gweithdrefnau Gweithredu Safonol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Mesurau amlinellol sy'n berthnasol wrth ystyried pryd y gall Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ddefnyddio OIFR. • Ystyriaethau o ran Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau gan gynnwys ar ba sail y gellir ychwanegu delweddau at y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ac ystyriaethau sy'n berthnasol i ffynonellau delweddau nad ydynt yn dod o'r heddlu.
Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Ddiogelu Data	• Mae'n disgrifio natur, cwmpas, cyd-destun a dibenion y gweithgarwch prosesu. • Mae'n asesu rheidrwydd, cymesuredd a mesurau cydymffurfiaeth. • Mae'n nodi ac yn asesu risgiau i unigolion. • Mae'n nodi unrhyw fesurau ychwanegol i liniaru'r risgiau hynny.
Dogfennau Polisi Priodol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent	• Mae'n esbonio sut y bydd gweithgareddau prosesu data sensitif yn cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3, adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018. • Mae'n esbonio sut y caiff data categori arbennig eu prosesu o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data • Mae'n esbonio sut mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data ar

	gyfer Gorfodi'r Gyfraith ac egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae'n amlinellu polisïau ar gadw a dileu data personol.
Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Gydraddoldeb	• Mae'n hyrwyddo pob agwedd ar gydraddoldeb. • Mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, gan ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol.